OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 813 (Cy.98)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*19 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 27(1), (3), (5)(a), (8), (9) a 154(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol —

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "cyflogai Cynllun Cyflogaeth Estynedig" ("*EES employee*") yw person y cafodd ei gontract cyflogaeth ei drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys(**2**) o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig yn unol ag erthygl 5;

ystyr "Cynllun Cyflogaeth Estynedig" ("*Extended Employment Scheme*") yw cynllun sy'n darparu i Fwrdd Iechyd Lleol Powys gyflogi, am gyfnod heb fod yn fwy na 12 mis gan ddechrau ar y dyddiad trosglwyddo, bersonau y mae eu contractau cyflogaeth yn cael eu trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn unol ag erthygl 5;

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant employee*") yw person —

(a) y mae ei gontract cyflogaeth gydag awdurdod iechyd Cymreig heb gael ei derfynu cyn y dyddiad trosglwyddo (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser neu fel arall); a

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) Sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Powys drwy orchymyn o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) — *gweler* Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu)(Cymru) 2003 (O.S. 2003/148, Cy.18).

(b) a gafodd gynnig cyflogaeth ac a'i derbyniodd cyn y dyddiad trosglwyddo gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "cyflogai gweddilliol" ("*residual employee*") yw person —

(a) y mae ei gontract cyflogaeth gydag awdurdod iechyd Cymreig heb gael ei derfynu cyn y dyddiad trosglwyddo (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser neu fel arall); a

(b) na chafodd gynnig cyflogaeth neu na dderbyniodd gyflogaeth cyn y dyddiad trosglwyddo gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol(**3**) (heblaw gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig).

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2003; ac

ystyr "awdurdod iechyd Cymreig" ("*Welsh health authority*") yw awdurdod iechyd a sefydlwyd gan Orchymyn Sefydlu yr Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996(**4**), ac a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Trosglwyddo swyddogaethau Awdurdodau Iechyd Cymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

3. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir holl swyddogaethau pob un o'r awdurdodau iechyd Cymreig mewn perthynas â'r ardal gyfan y mae pob un o'r awdurdodau yn gweithredu ar ei chyfer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trosglwyddo cyflogeion perthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

4. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, caiff contract cyflogaeth rhwng cyflogai perthnasol ac awdurdod iechyd Cymreig ei drin fel pe bai wedi cael ei wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai perthnasol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trosglwyddo cyflogeion gweddilliol i Fwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig

5. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, caiff contract cyflogaeth rhwng cyflogai gweddilliol ac awdurdod iechyd Cymreig ei drin fel pe bai'n gontract cyflogaeth am gyfnod penodedig a i ddod i ben ar 31 Mawrth 2004 gafodd ei wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai gweddilliol a Bwrdd Iechyd Lleol Powys.

Trosglwyddo cyflogeion Cynllun Cyflogaeth Estynedig o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig

6.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i gyflogai Cynllun Cyflogaeth Estynedig na therfynwyd ei gontract cyflogaeth (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser neu fel arall).

(2) Yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis ar ôl y dyddiad trosglwyddo, caiff contract cyflogaeth rhwng cyflogai Cynllun Cyflogaeth Estynedig y mae paragraff (1) yn gymwys iddo a Bwrdd Iechyd Lleol Powys, os cafodd y cyflogai hwnnw gynnig cyflogaeth a'i derbyn —

(a) gan unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol (heblaw Bwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig); neu

(b) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

ei drin fel pe bai wedi cael ei wneud yn wreiddiol rhwng cyflogai y Cynllun Cyflogaeth Estynedig a Bwrdd Iechyd Lleol o'r fath neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) Sefydlir Byrddau Iechyd Lleol drwy orchymyn o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) — *gweler* Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148, Cy.18).
(**4**) O.S. 1996 Rhif 146.